## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CYFFORDD 36 (CYFNEWIDFA WARREN) I FFIN CYMRU/LLOEGR, SIR Y FFLINT) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) a Ffin Cymru/Lloegr yn Sir y Fflint, neu gerllaw iddi.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darnau o'r A55 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill hefyd yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol dros nos (rhwng 21:00 o'r gloch a 05:00 o'r gloch) o 8 Mai 2024 hyd 19 Mai 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

### YR ATODLEN

#### Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) i gyfeiriad y dwyrain hyd at ffin Cymru/Lloegr.

## THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 36 (WARREN INTERCHANGE) TO THE WALES/ENGLAND BORDER, FLINTSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road from Junction 36 (Warren Interchange) to the Wales/England border in the County of Flintshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in the Schedule to this Notice.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, will operate overnight (21:00 hours to 05:00 hours) from 8 May 2024 until 19 May 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

### SCHEDULE

#### Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians and Alternative Routes

1. The length of the A55 eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 36 (Warren Interchange) in an easterly direction to the Wales/England border.

2. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren).

3. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 36A (Brychdyn).

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain sy'n dymuno teithio tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36 fydd teithio ar y gerbytffordd tua'r gorllewin i Gyffordd 34, yna mynd ar yr A494 tua'r gogledd-ddwyrain i gymryd yr allanfa ar yr A5117 a pharhau tua'r gogledd-ddwyrain i Gylchfan Dunkirk, yna cymryd y drydedd allanfa ar yr A41 tua'r de-ddwyrain i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 39.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain sy'n dymuno ymuno â'r gerbytffordd tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36A fydd ymuno â'r B5125 tua'r gogledd-orllewin, yna cymryd yr allanfa gyntaf ar yr A5104 tua'r de i Gyffordd 36 a pharhau ar hyd y prif lwybr dargyfeirio uchod.

4. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr i gyfeiriad y gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren).

5. Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren).

6. Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 36A (Brychdyn).

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin sy'n dymuno teithio tua'r gorllewin wrth Gyffordd 38 fydd teithio ar y gerbytffordd tua'r dwyrain gan barhau tua'r dwyrain i Gyffordd 39, yna mynd ar yr A41 tua'r gogledd-orllewin i Gylchfan Dunkirk i gymryd yr allanfa gyntaf ar yr A5117 tua'r de-orllewin, yna troi i'r dde ar yr A540 i Gylchfan Parkgate, cymryd y drydedd allanfa ar yr A494 tua'r de-orllewin a mynd i Gyffordd 34 i ailymuno â'r A55.

Bydd unrhyw wyriadau eraill sydd eu hangen uchod yn cael eu rheoli gan Highways England.

2. The entire length of the A55 eastbound entry slip road at Junction 36 (Warren Interchange).

3. The entire length of the A55 eastbound entry slip road at Junction 36A (Broughton).

The alternative route for eastbound traffic wishing to travel eastbound at Junction 36 will be to travel on the westbound carriageway to Junction 34, then proceed on the A494 north eastbound to take the exit onto the A5117 and continue north eastbound to Dunkirk Roundabout, then take the third exit onto the A41 south eastbound to re-join the A55 at Junction 39.

The alternative route for eastbound traffic wishing to join the eastbound carriageway at Junction 36A will be to join the B5125 north westbound, then take the first exit onto the A5104 southbound to Junction 36 and continue via the main diversion route above.

4. The length of the A55 westbound carriageway of the trunk road that extends from the Wales/England border in a westerly direction to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 36 (Warren Interchange).

5. The entire length of the A55 westbound exit slip road at Junction 36 (Warren Interchange).

6. The entire length of the A55 westbound exit slip road at Junction 36A (Broughton).

The alternative route for westbound traffic wishing to travel westbound at Junction 38, will be to travel via the eastbound carriageway continuing eastbound to Junction 39, then proceed on the A41 north westbound to Dunkirk Roundabout to take the first exit onto the A5117 south westbound, then turn right onto the A540 to Parkgate Roundabout, take the third exit onto the A494 south westbound and proceed to Junction 34 to re-join the A55.

Any other diversions required above will be managed by Highways England.